# Ymgynghoriad Ffurfiol i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fis Medi 2024

**25 Medi 2023 -**
**12 Tachwedd 2023**

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Os hoffech gael yr wybodaeth hon ar unrhyw ffurf arall er enghraifft braille neu brint bras, neu os hoffech gael help gan ddehonglydd iaith arall, cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwch school.reorg@newport.gov.uk

**Cymraeg**

If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact Newport City Council on 01633 656656 or by emailing school.reorg@newport.gov.uk

**Saesneg**

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如凸字及大字體印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱school.reorg@newport.gov.uk_

**Cantoneg**

Pkud byste chtěli tyto informace v libovolném jiném formátu, například braillském písmu nebo velkém tištěném textu nebo pomoci s tlumočením v jiném jazyce, kontaktujte Newport City Council na čísle 01633 656656 nebo e-mailem school.reorg@newport.gov.uk

**Tsieceg**

اگر شما این اطلاعات را در فرمت دیگر می خواهید مثلاً بریل (الفباء نابینایان) یا چاپ بزرگ یا کمک به تفسیر در زبان دیگر، لطفا با شورای شهر نیوپورت Newport City Council 01633 656656 تماس بگیرید یا به این ادرس ایمیل کنید school.reorg@newport.gov.uk

**Ffarsi**

Ha szeretné ezt az információt másmilyen formátumban, peldául Braille-írással vagy nagybetűvel nyomtatottan vagy szeretne fordítást különböző nyelven akkor legyen szives kapcsolatba lépni a Newporti Tanáccsal a 01633 656656 telefonszámon vagy emailezzen a school.reorg@newport.gov.uk

**Hwngareg**

Jei norite gauti aukščiau pateiktą informaciją kitais formatais, pvz., "Brailio raštu" ir dideliu šriftų spausdinimu, arba jei turite žodinį vertimą, susisiekite su Niuporto miesto vyriausybe. Ffôn: 01633 656656. ElektroninisPaštas: school.reorg@newport.gov.uk

**Lithwaneg**

如果您希望以其他格式获取以上信息，例如盲文及大字体印刷，或者如您有口语翻译的需求，请与新港市市政府联系。 电话：01633 656656 邮箱：school.reorg@newport.gov.uk

**Mandarin**

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'em czy dużym drukiem, lub pomoc przy tłumaczeniu w innym języku, prosimy o kontakt z Urzędem Miasta Newport na 01633 656656 lub wysyłając maila na school.reorg@newport.gov.uk

**Pwyleg**

Se você quiser essa informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou impressão em letra grande, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, entre em contato com a Câmara Municipal de Newport através do número 01633 656656 ou enviando um email para school.reorg@newport.gov.uk

**Portiwgeeg**

Dacă doriți această informație în alt format, de exemplu Braille sau în format mare, sau ajutor cu interpretarea în alta limbă, vă rugăm să contactați Newport City Council la numărul de telefon : 01633656656 sau prin e-mail-ul:school.reorg@newport.gov.uk

**Rwmaneg**

Если вы хотите получить вышеуказанную информацию в других форматах, таких как шрифт Брайля и большой шрифт, или если у вас есть необходимость в устном переводе, обратитесь в управление города Ньюпорт. Тел: 01633 656656 Электронная почта : school.reorg@newport.gov.uk

**Rwsieg**

V prípade, že potrebujete tieto informácie v inom formáte, ako napríklad Brajlove písmo alebo veľká tlač alebo potrebujete pomoc s prekladom alebo tlmočením do iného jazyka, prosím kontaktujte Newport City Council na telefónnom čísle 01633 656656 alebo mailom na school.reorg@newport.gov.uk

**Slofaceg**

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, por favor póngase en contacto con el Ayuntamiento de Newport al 01633 656656 o por correo electrónico a school.reorg@newport.gov.uk

**Sbaeneg**

اگر آپ یہ معلومات کسی دوسری شکل میں حاصل کرنا پسند کریں گے مثال کے طور پر بریل (نابینا اشخاص کے لیۓ) یا بڑے پرنٹ میں یا دوسری زبان میں ترجمے کے لیۓ تو برائے مہربانی نیوپورٹ سٹی کونسل Newport City Council سے اس نمبر پر رابطہ کریں 01633 656656 یا اس پتہ پر ای میل کریں school.reorg@newport.gov.uk

**Wrdw**

Gellir trefnu i gael y wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen. Ffoniwch 01633 656656 i drefnu hynny.

# Cynnwys

Cyflwyniad....3
Cefndir....3
Y Broses Ymgynghori....4
Ymgynghoriad....5
Trefniadau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc....5
Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?....5
Beth mae angen i chi ei ystyried?....6
Y Cynnig....7
Ysgolion yr effeithir arnynt....8
Niferoedd Blaenorol a Rhagamcanol – Ysgol Gynradd Parc Tredegar Ysgol....9
Niferoedd Blaenorol a Rhagamcanol – Ysgolion Cynradd Lleol Eraill....11
Niferoedd Blaenorol a Rhagamcanol – Ysgol John Frost....12
Cyflwr Adeiladau....13
Safonau Ansawdd....13
Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?....14
Pa Bryd y Gweithredir Hyn?....15
Cost y Cynnig....15
Opsiynau Eraill a Ystyriwyd....16
Beth fydd y cynnig a ffefrir yn ei gyflawni?....17
Trefniadau Trefniadaeth Ysgol....17
Dalgylch....17
Derbyniadau....17
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol....18
Llywodraethiant....18
Staffio....18
Manteision....18
Anfanteision....18
Risgiau....18
Asesiadau o Effaith....19
Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg....19
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad....20

# Cyflwyniad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y cynnig canlynol:

"Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o 420 i 525 o leoedd o fis Medi 2024"

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau y bydd y Cyngor yn eu hystyried wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.

**Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol hwn:**

- **Yn dechrau ar 25 Medi 2023**
- **Yn dod i ben am hanner nos ar 12 Tachwedd 2023**

## Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir 2 ddosbarth mynediad sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae gan yr ysgol nifer derbyn cyhoeddedig o 60, a chyfanswm capasiti ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol o 420. Mae dosbarth meithrin i 40 o blant hefyd a all ddarparu ar gyfer uchafswm o 80 o blant naill ai yn sesiwn y bore neu'r prynhawn.

Ers mis Ionawr 2023, mae'r ysgol yn gweithredu ar 89% o gyfanswm y capasiti sydd ar gael. Mae disgwyl i'r galw am leoedd disgyblion yn yr ardal gynyddu yn dilyn datblygiadau tai newydd sydd wedi'u sefydlu gan gynnwys dau ddatblygiad mawr wedi'u cwblhau'n ddiweddar gyda dros 750 o anheddau a datblygiad arall yn cael ei adeiladu gerllaw ar hyn o bryd, a fydd yn cynnwys 500 o anheddau.

Bydd y cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd yn wardiau Parc Tredegar, Gaer a Pilgwenlli. Cynigir y bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu'n raddol o fis Medi 2024.

## Y Broses Ymgynghori

Fel rhan o 'Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013', cyn cyhoeddi cynnig, yn gyntaf rhaid ymgynghori arno. Mae'r broses ymgynghori yn cynnwys nifer o gamau, fel y nodir yn y tabl isod:

| Cam | Disgrifiad | Hyd |
|---|---|---|
| 1 | **Ymgynghoriad**<br>Cyn cyhoeddi cynnig trefniadaeth ysgol, yn gyntaf rhaid ymgynghori ar y cynnig. Mae'r cyfnod ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chynnig sylwadau i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Cyngor. | Fel rheol 6-8 wythnos |
| 2 | **Adroddiad ar yr Ymgynghoriad**<br>Caiff yr holl safbwyntiau a fynegir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori, sy'n cynnwys ymatebion gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a/neu'r Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ysgol a gwefan y Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried pan fydd y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen. | Cyhoeddi o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol. |
| 3 | **Hysbysiad Statudol**<br>Os penderfynir i fwrw ymlaen, caiff hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a gwefan y Cyngor a chaiff ei bostio wrth gatiau'r ysgol dan sylw am o leiaf 28 diwrnod. Mae'r cam hwn yn cynrychioli'r cyfnod gwrthwynebu ffurfiol sy'n caniatáu i bobl wrthwynebu'r cynnig. | Isafswm o 28 diwrnod (gan gynnwys 15 diwrnod ysgol) |
| 4 | **Adroddiad Gwrthwynebu**<br>Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, gall y cynnig symud yn syth at benderfyniad Corff Llywodraethu'r ysgol ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar. Os derbynnir gwrthwynebiadau, crynhoir y rhain mewn adroddiad gwrthwynebu a fydd yn cynnwys ymatebion y Corff Llywodraethu a/neu'r Cyngor. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoeddi ar wefan yr Ysgol a gwefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen. | Cyhoeddir o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu |
| 5 | **Penderfyniad**<br>Bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law a bydd corff llywodraethu'r ysgol a/neu'r Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y cynnig. | Gwneir penderfyniad o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu |
| 6 | **Hysbysiad o'r Penderfyniad**<br>Ar ôl gwneud y penderfyniad, bydd rhanddeiliaid wedyn yn cael gwybod am y canlyniad drwy lythyr penderfyniad, a fydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a gwefan y Cyngor. | |

# Ymgynghoriad

Mae'r cyfnod ymgynghori yn cynrychioli cam cyntaf y broses ymgynghori ac mae'n gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys dwy sesiwn galw heibio gyda'r rheiny y mae'r cynnig yn effeithio arnynt lle bydd swyddogion y Cyngor ar gael i egluro'r cynnig yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau.

| Tabl 1: Sesiynau Galw Heibio | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Dyddiad ac Amser** | **Sesiwn** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | Dydd Mawrth 3 Hydref 2023 @ 08:45-09:45 | Galw Heibio |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | Dydd Llyn 9 Hydref 2023 @ 14:45-15:45 | Galw Heibio |

**Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yma. Gall ymatebion hefyd gael eu cyflwyno dros e-bost i: school.reorg@newport.gov.uk. Dylid nodi ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynir trwy'r cyfeiriad e-bost hwn yn glir fel ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall byddant yn cael eu trin fel ymholiad ac ni chânt eu cofrestru'n ffurfiol. Neu, gellir dychwelyd y ffurflen amgaeedig at y Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. ***Dim ond ymatebion a gyflwynir gan ddefnyddio'r dulliau hyn a gaiff eu hystyried fel ymatebion i'r ymgynghoriad.***

Caiff platfformau megis Twitter a Facebook hefyd eu defnyddio i rannu gwybodaeth am y newidiadau a gynigiwyd.

Ni fydd ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. **Y dyddiad cau ar gyfer pob ymateb i'r ymgynghoriad yw hanner nos ar 12 Tachwedd 2023.**

**Trefniadau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc**

Mae Fersiwn Gryno Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc wedi'i chreu o'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'r Fersiwn Gryno Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc a'r fersiwn lawn ar gael drwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/schoolreorganisation. Gallwch hefyd ofyn am gopïau caled drwy anfon e-bost i school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656.

**Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?**

- Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Disgyblion Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;

- Aelodau'r Senedd (AoS) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau staff addysgu a staff cymorth yn cynrychioli athrawon a staff ymhob ysgol yng Nghasnewydd;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

**Beth mae angen i chi ei ystyried?**

Mae gweddill y ddogfen hon yn cyflwyno'r rhesymeg ar gyfer y cynnig. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen a hoffem wybod a ydych yn cefnogi'r cynnig ai peidio.

# Y Cynnig

Mae hwn yn gynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar, Partridge Way, Duffryn, Casnewydd, NP10 8WP i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024.

Mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar, sydd wedi'i lleoli yn ward 'Parc Tredegar a Maerun' yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir 2 ddosbarth mynediad. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol nifer derbyn cyhoeddedig o 60, a chyfanswm capasiti ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol o 420. Mae dosbarth meithrin i 40 o blant hefyd a all ddarparu ar gyfer uchafswm o 80 o blant naill ai yn sesiwn y bore neu'r prynhawn.

Bydd y cynnig yn caniatáu i'r ysgol gynyddu'r nifer derbyn cyhoeddedig o 60 i 75 a chynyddu cyfanswm y capasiti ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol o 420 i 525. Ni fyddai nifer derbyn y meithrin yn newid o dan y cynnig. Bydd y cynnydd capasiti yn bosibl drwy ddefnyddio ardal yng Nghanolfan Deulu y Fforest a adawyd yn ddiweddar gan dîm Cyswllt Cymunedol Duffryn. Bydd angen rhai newidiadau i'r defnydd o fannau presennol ym mhrif adeilad yr ysgol hefyd.

O fis Medi 2024, bydd gan bob grŵp blwyddyn derbyn newydd yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar uchafswm o 75 o leoedd. Bydd yr ysgol yn cyrraedd ei chapasiti llawn ym mis Medi 2030 pan fydd pob grŵp blwyddyn yn gweithredu o dan drefniant 2.5 dosbarth mynediad. Mae'r tabl isod yn dangos sut y bydd capasiti'r ysgol yn tyfu.

**Tabl 2: Nifer y Lleoedd Arfaethedig fesul Grŵp Blwyddyn**

| Blwyddyn | D | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Lleoedd D-Bl6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2024/25** | 75 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 435 |
| **2025/26** | 75 | 75 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 450 |
| **2026/27** | 75 | 75 | 75 | 60 | 60 | 60 | 60 | 465 |
| **2027/28** | 75 | 75 | 75 | 75 | 60 | 60 | 60 | 480 |
| **2028/29** | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 60 | 60 | 495 |
| **2029/30** | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 60 | 510 |
| **2030/31** | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 75 | 525 |

Ym mis Ionawr 2023, roedd yr ysgol yn gweithredu ar 89% o gyfanswm y capasiti oedd ar gael. Mae disgwyl i'r galw am leoedd disgyblion yn yr ysgol gynyddu yn dilyn datblygiadau tai newydd a sefydlwyd yn ardal gyfagos yr ysgol.

Mae nifer o ddatblygiadau tai mawr newydd yn yr ardal gyfagos. Mae hyn yn cynnwys y datblygiad Panasonic a gwblhawyd gyda 250 o anheddau yn nalgylch Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Mae datblygiad Mon Bank, llai na 2 filltir i ffwrdd, hefyd wedi'i gwblhau yn ddiweddar gyda dros 500 o anheddau. Mae datblygiad pellach yn cael ei adeiladu ar safle Whiteheads ym Mhilgwenlli, ac mae disgwyl i'r datblygiad hwn ddarparu 500 o gartrefi eraill i'r ardal. Yn y pen draw, rhagwelir y bydd maint y datblygiad yn yr ardal yn arwain at fwy na 300 o ddisgyblion oed ysgol gynradd ychwanegol yn y clwstwr, gan roi pwysau sylweddol ar y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion. Er bod rhai o'r disgyblion ychwanegol hyn eisoes yn ein hysgolion, mae disgwyl i'r pwysau barhau wrth i ddatblygiad o 500 o gartrefi ddechrau gael ei adeiladu yn Whiteheads yn ddiweddar. Ar hyn o bryd dim ond 43 o leoedd ysgol gynradd (2.1%) sydd ar gael ar draws gweddill clwstwr Ysgol John Frost.

Bydd Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn symud i'r adeilad ysgol newydd ar safle Whiteheads yn 2025 a fydd yn cynyddu capasiti'r ysgol honno o 546 i 630. Fodd bynnag, nodir na fydd yr 84 o leoedd ychwanegol a gynigir yn ddigonol i ateb y galw disgwyliedig yn yr ardal leol. Bydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli hefyd yn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn 2025 ac yn y pen draw yn

darparu cyfanswm o 420 o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg prif ffrwd yn yr ardal, gan ddarparu capasiti lleol ychwanegol i deuluoedd sy'n dymuno dewis addysg cyfrwng Cymraeg.

Nid o fewn clwstwr Ysgol John Frost yn unig mae'r pwysau ar leoedd ysgol ond o fewn gorllewin cyfan y ddinas. Mae pwysau hefyd ar ysgolion cynradd clwstwr Ysgol Basaleg gyda 0.9% o leoedd gwag ar draws y clwstwr ar hyn o bryd. Erbyn 2028, nid oes disgwyl y bydd lleoedd ar gael i glwstwr Ysgol Basaleg ac os bydd y pwysau'n parhau, mae'n debygol y bydd disgyblion sy'n methu sicrhau lleoedd yng nghlwstwr Ysgol Basaleg yn gwneud cais am leoedd mewn ysgolion cynradd yng nghlwstwr Ysgol John Frost.

Oherwydd cyfyngiadau safle ar draws y clwstwr, nodwyd mai Ysgol Gynradd Parc Tredegar yw'r safle sy'n fwyaf addas ar gyfer ehangu. Bydd ehangu arfaethedig Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn helpu i ateb y galw gan ddisgyblion o ddatblygiadau tai Panasonic, Mon Bank a Whiteheads.

Mae pob ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol John Frost wedi eu hystyried ar gyfer ehangu, ond nid yw'r ysgolion yn addas, neu maen nhw eisoes yn cael eu hystyried ar gyfer ehangu o dan brosiectau amgen. Cyflwynir y casgliadau isod:

**Tabl 3: Ysgolion Eraill a Ystyriwyd ar gyfer Ehangu**

| **Ysgol** | **Ystyriaethau/Casgliadau** |
|---|---|
| **Ysgol Gynradd Cleidda** | Ysgol 1DM sy'n meddiannu safle cyfyng – anaddas ar gyfer ehangu |
| **Ysgol Gynradd Gaer** | Ysgol 2DM sy'n meddiannu adeilad rhestredig. Mae safle'r ysgol hefyd wedi'i restru ac yn cael ei rannu ag Ysgol Bryn Derw – anaddas i'w ehangu |
| **Ysgol Gynradd Glasllwch** | Ysgol 1DM a allai o bosibl ddarparu ar gyfer ehangu ond wedi'i lleoli tua 2 filltir o'r datblygiadau tai a nodwyd |
| **Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw** | Ysgol 1.5DM sy'n meddiannu adeilad rhestredig ar safle cyfyng – anaddas ar gyfer ehangu |
| **Ysgol Gynradd Pilgwenlli** | Ysgol 2.5DM ar safle cyfyng – anaddas ar gyfer ehangu O fis 2025 bydd yr ysgol yn adleoli ac yn tyfu i 3DM |
| **Ysgol Gynradd Maesglas** | Ysgol fach (ychydig dros 1DM), ar safle a rennir ag Ysgol Maes Ebwy – felly lle cyfyngedig i ehangu. |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | Ysgol 2DM â'r gallu i ddarparu ar gyfer ehangu ar raddfa fach i 2.5DM drwy ailfodelu/ail-bwrpasu lle presennol. |

## Ysgolion yr effeithir arnynt

**Ysgol Gynradd Parc Tredegar**, Partridge Way, Duffryn, Casnewydd, NP10 8WP, ysgol gynradd gymunedol a gynhelir 2 ddosbarth mynediad gyda nifer derbyn o 60, a nifer derbyn meithrin o 80. Bydd effaith uniongyrchol ar yr ysgol oherwydd y cynnydd arfaethedig i gapasiti, sy'n golygu y bydd nifer derbyn y disgyblion yn cynyddu, gan ganiatáu i'r ysgol dderbyn mwy o ddisgyblion. Bydd ehangu'r ysgol yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a staff.

Mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fewn clwstwr Ysgol John Frost. Mae Ysgol John Frost yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir yn ward Parc Tredegar. Nifer derbyn cyhoeddedig a gytunwyd ar gyfer yr ysgol yw 248.

Mae chwe ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir arall hefyd yn ffurfio clwstwr Ysgol John Frost, sef:

- Ysgol Gynradd Cleidda (wedi'i lleoli yn ward Allt-Yr-Yn)
- Ysgol Gynradd Gaer (wedi'i lleoli yn ward Gaer)
- Ysgol Gynradd Glasllwch (wedi'i lleoli yn ward Allt-Yr-Yn)

- Ysgol Gynradd Maesglas (wedi'i lleoli yn ward Gaer)
- Ysgol Gynradd Pilgwenlli (wedi'i lleoli yn ward Pilgwenlli)
- Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw (wedi'i lleoli yn ward Stow Hill)

Mae'r chwe ysgol hyn bron yn llawn ar hyn o bryd. Bwriad ehangu arfaethedig Ysgol Gynradd Parc Tredegar yw amsugno rhai o'r pwysau a ragwelir ar ysgolion na ellir eu hehangu eu hunain. Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dalgylchoedd, ac ni fydd y cynnig yn effeithio ar yr ysgolion hyn.

Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar Ysgol John Frost gan na fydd y cynnydd arfaethedig i'r nifer derbyn yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol John Frost.

## Niferoedd Blaenorol a Rhagamcanol – Ysgol Gynradd Parc Tredegar Ysgol

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn darparu addysg i 372 o blant oedran ysgol statudol yn unol â chyflwyniad Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023. Mae'r tablau canlynol yn nodi niferoedd disgyblion prif ffrwd blaenorol a rhagamcanol ar gyfer yr ysgol:

**Tabl 4: Ysgol Gynradd Parc Tredegar**
**Niferoedd disgyblion 2019-2023 - Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6* (ac eithrio'r Meithrin)**

| Ysgol Gynradd Parc Tredegar | Capasiti (2023) | D | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Cyfanswm | *Lleoedd Gwag 2023* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2018/19** | 420 | 53 | 57 | 60 | 59 | 55 | 51 | 59 | 394 | *26* |
| **2019/20** | 420 | 52 | 53 | 57 | 57 | 59 | 48 | 51 | 377 | *43* |
| **2020/21** | 420 | 60 | 53 | 54 | 58 | 60 | 59 | 49 | 393 | *27* |
| **2021/22** | 420 | 59 | 57 | 50 | 54 | 59 | 59 | 60 | 398 | *22* |
| **2022/23** | 420 | 31 | 58 | 59 | 50 | 56 | 59 | 59 | 372 | *48* |
| ***Cyflwyniad CYBLD mis Ionawr yw'r niferoedd disgyblion ar gyfer y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6*** | | | | | | | | | | |

Mae tabl 4 uchod yn dangos bod nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol wedi mwy na dyblu rhwng 2022 a 2023, o 22 i 48. Mae hyn oherwydd niferoedd dosbarth Derbyn isel ym mis Medi 2022. Mae'r nifer derbyn isel o ddisgyblion o ganlyniad i gyfradd genedigaethau anarferol o isel yn y flwyddyn eni gyfatebol. Dangosir cyfraddau genedigaethau'r dalgylch isod, sy'n awgrymu y bydd niferoedd dosbarthiadau Derbyn yn dychwelyd i'r arfer o fis Medi 2023. Cefnogir hyn gan ddata derbyniadau ysgolion sy'n dangos bod y 60 o leoedd Derbyn yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar wedi'u dyrannu ar gyfer mis Medi 2023.


Dros y 7 mlynedd diwethaf, y gyfradd derbyn gyfartalog yn y dosbarth Derbyn o'i gymharu â genedigaethau yn y dalgylch yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yw 51.7%. Mae'r tabl isod yn dangos cyfradd derbyniadau blwyddyn unigol ar gyfer disgyblion dosbarth Derbyn.

**Tabl 5: Ysgol Gynradd Parc Tredegar**
**Cyfradd Derbyniadau Dosbarth Derbyn**

| 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 47.20% | 51.75% | 52.48% | 46.02% | 56.07% | 56.73% | 51.67% |

Mae'r graff isod yn dangos nifer y plant a anwyd yn nalgylch Ysgol Gynradd Parc Tredegar, dros gyfnod o ddeng mlynedd. Arweiniodd y cyfraddau geni isel yn 2018 at niferoedd isel yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022 (CYBLD 2023).

**Graff 1: Cyfraddau geni i blant a anwyd yn nalgylch Ysgol Gynradd Parc Tredegar**




Mae Tabl 5, uchod, yn dangos bod y gyfradd derbyn yn yr ysgol o'i chymharu â genedigaethau yn y dalgylch yn weddol isel. Mae gwybodaeth cyfrifiad disgyblion yn dweud wrthym, ar gyfartaledd, fod 18% o ddisgyblion y dalgylch yn mynd i ysgolion ffydd lleol, tra bod 10% yn mynd i Ysgol Gynradd Maerun, a 7% yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Ysgol Gynradd Maerun 4 milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd Parc Tredegar ac nid yw'n ysgol ddalgylch. Nid y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer unrhyw ysgolion ffydd gan fod y cyfrifoldeb hwn yn nwylo'r corff llywodraethu perthnasol.

Mae data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud wrthym fod poblogaeth Casnewydd wedi tyfu dros 22,500 o bobl yn yr ugain mlynedd rhwng 2001 a 2021, ac yn rhagweld y bydd y boblogaeth yn parhau i godi 6,500 yn fwy o bobl erbyn 2030. Mae hyn yn awgrymu y bydd y pwysau ar leoedd mewn ysgolion yn yr ardal yn parhau yn y dyfodol rhagweladwy.

**Tabl 6: Ysgol Gynradd Parc Tredegar**
**Niferoedd disgyblion 2019-2023 - Meithrin**

| ***Ysgol*** | *Capasiti (2023)* | *2018 - 2019* | *2019 - 2020* | *2020 - 2021* | *2021 - 2022* | *2022 - 2023* | *Lleoedd Gwag 2023* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 80 | 74 | 73 | 75 | 48 | 64 | *16 (20%)* |
| ***Cyflwyniad CYBLD mis Ionawr yw'r niferoedd disgyblion*** | | | | | | | |

**Tabl 7: Ysgol Gynradd Parc Tredegar**
**Rhagamcanion disgyblion 2023-2030 - Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (ac eithrio'r Meithrin)**

| ***Ysgol*** | *Capasiti (2023)* | 2023 - 2024 | *2024 - 2025* | *2025 - 2026* | *2026 - 2027* | *2027 - 2028* | *2028 - 2029* | *2029 - 2030* | *Lleoedd Gwag 2030* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 420 | 387 | 385 | 387 | 386 | 383 | 386 | 385 | *35 (8.3%)* |
| ***Nid yw'r rhagolygon hyn yn cynnwys effaith datblygiadau tai yn y dyfodol*** | | | | | | | | | |

Mae'r amcanestyniadau disgyblion ar gyfer yr ysgol yn dangos bod niferoedd y disgyblion yn aros yn gyson tua 385, sef 8.3% o leoedd gwag. Fodd bynnag, mae rhagolygon ar gyfer y clwstwr yn dangos

nifer llawer is o leoedd gwag, a disgwylir i hyn waethygu o ganlyniad i dwf y boblogaeth a chwblhau a meddiannu datblygiadau tai newydd a amlinellir uchod.

## Niferoedd Blaenorol a Rhagamcanol – Ysgolion Cynradd Lleol Eraill

Ar hyn o bryd, mae'r ysgolion cynradd yng nghlwstwr Ysgol John Frost yn darparu addysg i 2,296 o blant o oedran ysgol statudol yn unol â chyflwyniad Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023. Mae'r tabl canlynol yn nodi niferoedd presennol y disgyblion prif ffrwd ar gyfer pob ysgol yn y clwstwr:

**Tabl 8: Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol John Frost**
**Niferoedd disgyblion 2019-2023 - Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (ac eithrio'r Meithrin)**

| *Ysgol* | *Capasiti (2023)* | *2018 - 2019* | *2019 - 2020* | *2020 - 2021* | *2021 - 2022* | *2022 - 2023* | *Lleoedd Gwag 2023* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Cleidda** | 210 | 209 | 205 | 204 | 202 | 202 | *8* |
| **Ysgol Gynradd Gaer** | 420 | 410 | 411 | 410 | 411 | 418 | *2* |
| **Ysgol Gynradd Glasllwch** | 210 | 209 | 207 | 212 | 208 | 208 | *2* |
| **Ysgol Gynradd Maes-glas** | 266 | 252 | 237 | 238 | 246 | 246 | *20* |
| **Ysgol Gynradd Pillgwenlli** | 546 | 558 | 530 | 540 | 538 | 542 | *4* |
| **Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw** | 315 | 304 | 301 | 300 | 312 | 308 | *7* |
| **Cyfanswm** | **1,967** | **1,942** | **1,891** | **1,904** | **1,917** | **1,924** | ***43 (2.1%)*** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 420 | 394 | 377 | 393 | 398 | 372 | *48* |
| **Cyfanswm** | **2,387** | **2,336** | **2,268** | **2,297** | **2,315** | **2,296** | ***91 (3.8%)*** |
| ***Cyflwyniad CYBLD mis Ionawr yw'r niferoedd disgyblion ar gyfer y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6*** | | | | | | | |

Mae'r tabl isod yn dangos ffigurau amcanestyniad disgyblion ar gyfer yr ysgolion cynradd yng nghlwstwr Ysgol John Frost, er nad yw'r ffigurau hyn yn ystyried pwysau yn y dyfodol o ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal.

**Tabl 9: Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol John Frost**
**Rhagamcanion disgyblion 2022-2030 - Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (ac eithrio'r Meithrin)**

| *Ysgol* | *Capasiti (2030)* | 2023 - 2024 | *2024 - 2025* | *2025 - 2026* | *2026 - 2027* | *2027 - 2028* | *2028 - 2029* | *2029 - 2030* | *Lleoedd Gwag 2030* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Cleidda** | 210 | 204 | 203 | 203 | 203 | 203 | 203 | 203 | *7* |
| **Ysgol Gynradd Gaer** | 420 | 412 | 412 | 413 | 413 | 414 | 413 | 413 | *7* |
| **Ysgol Gynradd Glasllwch** | 210 | 209 | 209 | 209 | 209 | 209 | 209 | 209 | *1* |
| **Ysgol Gynradd Maes-glas** | 266 | 244 | 242 | 243 | 244 | 244 | 243 | 243 | *23* |
| **Ysgol Gynradd Pillgwenlli** | 630* | 542 | 538 | 540 | 540 | 540 | 540 | 540 | *6* |
| **Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw** | 315 | 305 | 305 | 306 | 307 | 306 | 306 | 306 | *9* |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 420 | 387 | 385 | 387 | 386 | 383 | 386 | 385 | *35* |
| **Cyfanswm** | **2,471** | **2,303** | **2,294** | **2,301** | **2,302** | **2,299** | **2,300** | **2,299** | ***172 (7%)*** |
| ***Nid yw'r rhagolygon hyn yn cynnwys effaith datblygiadau tai yn y dyfodol*** <br> ****Bydd capasiti Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn cynyddu gan 84 lle o 2025 ar ôl ei hadleoli*** | | | | | | | | | |

Ar hyn o bryd mae clwstwr Ysgol John Frost ar 3.8% o leoedd gwag. Erbyn 2029/30, oherwydd y cynnydd arfaethedig mewn capasiti yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli, rhagwelir y bydd gan y clwstwr 7% o leoedd gwag. Mae hyn yn dal i fod yn is nag argymhelliad Llywodraeth Cymru o 10% ac nid yw'r

rhagolygon yn cyfrif am y cynnydd tebygol yn nifer y disgyblion sy'n deillio o'r datblygiad tai Whiteheads newydd.

Nid o fewn clwstwr Ysgol John Frost yn unig mae'r pwysau ar leoedd disgyblion ond ar draws gorllewin cyfan y ddinas. Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd disgyblion clwstwr Ysgol Basaleg dros y 5 mlynedd diwethaf ac yn 2023 mae gan y clwstwr lai nag 1% o leoedd gwag. Mae'r niferoedd yn dangos bod y clwstwr dan bwysau ac o ganlyniad i hyn, ychwanegwyd capasiti ychwanegol dros dro ar ffurf 'dosbarthiadau swigod' yn Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd ym mis Medi 2020 ac yn Ysgol Gynradd High Cross ym mis Medi 2021 i amsugno'r pwysau hyn.

**Tabl 10: Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol Basaleg**
**Niferoedd disgyblion 2019-2023 - Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (ac eithrio'r Meithrin)**

| *Ysgol* | *Capasiti (2023)* | *2018 - 2019* | *2019 - 2020* | *2020 - 2021* | *2021 - 2022* | *2022 - 2023* | *Lleoedd Gwag 2023* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Clwstwr Ysgol Basaleg | 2,055* | 1,972 | 2,016 | 2,031 | 2,037 | 2,037 | *18 (0.9%)* |

***Cyflwyniad CYBLD mis Ionawr yw'r niferoedd disgyblion ar gyfer y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6***
****Yn cynnwys dosbarthiadau swigen yn Ysgol Gynradd High Cross ac Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd***

Mae'r tabl isod yn dangos y rhagolygon ar gyfer y 7 mlynedd nesaf ar gyfer clystyrau Ysgol Basaleg ac Ysgol John Frost. Rhagwelir mai ychydig iawn o leoedd gwag sydd gan glwstwr Basaleg rhwng 2023 a 2030. Erbyn mis Medi 2028 ni fydd y ddau ddosbarth swigen bellach yn Ysgol Gynradd High Cross ac Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd, gan leihau cyfanswm capasiti'r clwstwr o 60 i gapasiti o 1,995. Ar y sail hon, felly, yn y blynyddoedd 2028/29 a 2029/30 rhagwelir y bydd gan y clwstwr ddiffyg o 35 o leoedd.

**Tabl 11: Ysgolion Cynradd Clwstwr Ysgol Basaleg ac Ysgol John Frost**
**Rhagamcanion disgyblion 2023-2030 - Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (ac eithrio'r Meithrin)**

| *Ysgol* | *Capasiti (2030)* | 2023 - 2024 | *2024 - 2025* | *2025 - 2026* | *2026 - 2027* | *2027 - 2028* | *2028 -2029* | *2029 -2030* | *Lleoedd Gwag 2030* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Clwstwr Ysgol Basaleg | 1,995 | 2,019 | 2,028 | 2,030 | 2,029 | 2,029 | 2,029 | 2,030 | -35 (-1.8%) |
| Cyfanswm Clwstwr Ysgol John Frost | 2,471* | 2,303 | 2,294 | 2,301 | 2,302 | 2,299 | 2,300 | 2,299 | *172 (7%)* |
| Cyfanswm | 4,466 | 4,322 | 4,322 | 4,331 | 4,331 | 4,328 | 4,329 | 4,329 | *137 (3.1%)* |

***Nid yw'r rhagolygon hyn yn cynnwys effaith datblygiadau tai yn y dyfodol***
****Bydd capasiti Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn cynyddu gan 84 lle o 2025 ar ôl ei hadleoli***

Er bod y pwysau ar leoedd o fewn clwstwr Basaleg, ystyrir bod yr ehangu arfaethedig yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ymateb priodol i effaith ddisgwyliedig datblygiad Whiteheads. Gellir cynyddu capasiti'r ysgol yn weddol hawdd trwy ailfodelu'r adeiladau presennol rhywfaint ac mae'n cynnig ateb cost-effeithlon. Byddai'r ehangu arfaethedig yn darparu 105 o leoedd ychwanegol ac yn cynyddu nifer y lleoedd gwag a ragwelir ar draws y ddau glwstwr yng ngorllewin y ddinas i 5.4%.

## Niferoedd Blaenorol a Rhagamcanol – Ysgol John Frost

Ar hyn o bryd, mae Ysgol John Frost yn darparu addysg i 1,374 o ddisgyblion yn unol â Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023. Nifer derbyn cyhoeddedig ffurfiol yr ysgol yw 248 sydd wedi'i bennu gan asesiad capasiti yn dilyn disodli'r adeilad hynaf ar y safle yn 2018. Mae'r tablau canlynol yn nodi niferoedd disgyblion prif ffrwd blaenorol a rhagamcanol ar gyfer yr ysgol:

| Tabl 12: Ysgol John Frost<br>Niferoedd disgyblion 2018-2023 – Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Ysgol*** | *Capasiti (2023)* | *2018 - 2019* | *2019 - 2020* | *2020 - 2021* | *2021 - 2022* | *2022 - 2023* | *Lleoedd Gwag 2023* |
| **Ysgol John Frost** | 1,440 | 1,136 | 1,187 | 1,286 | 1,331 | 1,374 | 66 *(4.6%)* |
| ***Cyflwyniad CYBLD mis Ionawr yw'r niferoedd disgyblion ar gyfer Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13*** | | | | | | | |

| Tabl 13: Ysgol John Frost<br>Rhagamcanion disgyblion 2022-2027 – Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Ysgol*** | *Capasiti (2023)* | 2023 - 2024 | *2024 - 2025* | *2025 - 2026* | *2026 - 2027* | *2027 - 2028* | *Lleoedd Gwag 2028* |
| **Ysgol John Frost** | 1,440 | 1,413 | 1,404 | 1,420 | 1,407 | 1,413 | 27 *(1.9%)* |
| ***Nid yw'r rhagolygon hyn yn cynnwys effaith datblygiadau tai yn y dyfodol*** | | | | | | | |

Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar Ysgol John Frost gan na fydd y cynnydd arfaethedig i'r nifer derbyn yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol John Frost.

## Cyflwr Adeiladau

Mae pob un o ysgolion presennol Casnewydd wedi bod yn destun arolwg Cyflwr Adeiladau. Ystyriwyd bod yr ysgolion yn effeithir arnynt gan y cynnig yn y cyflwr canlynol ar raddfa o A (rhagorol) i D (gwael):

| Tabl 14: Cyflwr Adeiladau | |
|---|---|
| **Ysgol** | **Cyflwr Presennol** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | C |

## Safonau Ansawdd

Estyn sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghasnewydd, ar y cyd â'r Awdurdod Lleol (ALl). Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond mae'n cael ei arian gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant Cymru.

Mae'r canlyniadau arolygu diweddaraf ar gyfer Ysgol Gynradd Parc Tredegar (Hydref 2022) wedi'u hamlinellu isod ynghyd ag ystyried effaith bosibl y cynnig hwn ar bob maes archwilio:

Mae'r ystyriaeth o effaith bosibl y cynnig ar ansawdd a safonau yn cydymffurfio â Fframwaith Arolygu Estyn:

*Addysg* – Nododd Estyn yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae disgyblion yn gyffredinol yn gwneud cynnydd cyffredinol da iawn yn eu datblygiad fel dysgwyr a phobl ifanc hyderus.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar yr addysg yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn y lefel briodol o her a chefnogaeth i sicrhau bod safon ansawdd uchel o addysg yn cael ei ddarparu.

*Lles ac agweddau tuag at ddysgu* - Daeth Estyn i'r casgliad bod Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ysgol ofalgar gyda chefnogaeth ar gyfer lles disgyblion wrth ei chalon a bod yr ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion a darparu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu dyfodol. Mae ymddygiad disgyblion ym mhob dosbarth yn dda ac mae hyn yn gryfder i'r ysgol. Mae gan bron pob

disgybl berthynas dda â’u cyfoedion ac â’r staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn gweithio ar eu tasgau ac yn awyddus i'w cwblhau'n dda.

Disgwylir i ddarpariaeth lleoedd disgyblion ychwanegol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar alluogi mwy o blant i elwa ar yr amgylchedd meithringar cadarnhaol hwn. Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth sy'n cael ei fonitro a'i adrodd drwy gynlluniau hunanwerthuso a gwella ysgolion a hefyd gan grŵp monitro lles yr awdurdod lleol.

*Profiadau dysgu ac addysgu* - Adroddodd Estyn fod yr ysgol wedi datblygu cwricwlwm lleol sy'n diwallu anghenion a diddordebau ei ddisgyblion a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion ac ethos y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cwricwlwm yn effeithiol wrth annog dyheadau disgyblion a chefnogi datblygiad parhaus eu sgiliau personol, cymdeithasol a bywyd. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion gael dweud eu dweud am beth maen nhw'n ei ddysgu.

Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar ansawdd yr addysgu. Gellir gwella'r profiadau dysgu drwy gael cyfleusterau mwy newydd/wedi'u diweddaru yn rhannau newydd Ysgol Gynradd Parc Tredegar.

*Cymorth ac arweiniad gofal* - Nododd Estyn ofal, cefnogaeth ac arweiniad fel un o brif gryfderau'r ysgol a nododd waith rhagorol y staff yn dweud bod staff yn gweithredu ystod eang o strategaethau yn fedrus i gefnogi disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n anodd rheoli eu hymddygiad eu hunain. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gilydd. Mae'r ysgol yn ymatebol iawn i anghenion ei chymuned, ac mae hyn yn amlwg drwy ei chwricwlwm cynhwysol a ystyriwyd yn ofalus.

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cymorth gofal a'r arweiniad a ddarperir, ond gall gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu'r arfer da a nodir ymhellach. Bydd yr ysgol yn parhau i gael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gofal, cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd uchel.

*Arwain a rheoli* - Adroddodd Estyn fod arweinwyr a staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i greu cwricwlwm pwrpasol i'w disgyblion a'u hanghenion eang. Mae pwyslais cryf ar les a datblygu sgiliau bywyd pwysig, yn enwedig i'r disgyblion hynaf sy'n dysgu'r sgiliau hyn yn Y Cartref. Mae arweinwyr yn gweithio gyda staff i fonitro perfformiad yr ysgol a chanlyniadau disgyblion, ac mae arweinwyr yn annog staff i ymgymryd â dysgu proffesiynol i wella’u sgiliau a’u heffeithiolrwydd wrth gefnogi disgyblion.

Ni fydd unrhyw newid i'r ffordd y bydd ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr yn perfformio yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar o ganlyniad i'r cynnig hwn.

## Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?

Bydd y cynnig yn darparu 105 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar, sy'n cyfateb i 15 lle ychwanegol fesul grŵp blwyddyn (Derbyn i Flwyddyn 6). Bydd y cynnydd capasiti yn bosibl drwy ail-bwrpasu ardal o Ganolfan Deulu y Fforest a rhannau o Ysgol Gynradd Parc Tredegar presennol i greu lle addysgu ychwanegol. Cwblhawyd llawer o'r gwaith hwyluso ar gyfer yr ehangu hwn yn 2018-19, pan ail-fodelwyd derbynfa ac ardal swyddfa’r ysgol, ad-drefnwyd ystafelloedd dosbarth, a darparwyd coridor cyswllt rhwng adeiladau'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Darparwyd ystafell staff well, ardal aml-ddefnydd ac ystafell feithrin bryd hynny hefyd.

Yn y pen draw, bydd yr ehangiad arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gynnal dosbarthiadau oedran cymysg lle mae nifer y disgyblion mewn grŵp blwyddyn yn fwy na 60 o ddisgyblion, fel sy'n

arferol mewn ysgolion 1.5 Dosbarth Mynediad a 2.5 Dosbarth Mynediad. Dangosir enghraifft o sut y gallai hyn edrych isod:

**Tabl 15 – Strwythur dosbarth eglurhaol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar**

| | Meithrin | Derbyn | Bl.1 | Bl.2 | Bl.3 | Bl.4 | Bl.5 | Bl.6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarth Meithrin | 40 | | | | | | | |
| Dosbarth Derbyn A/B | | 45 | | | | | | |
| Dosbarth Derbyn C | | 30 | | | | | | |
| Blwyddyn 1 Dosbarth A | | | 30 | | | | | |
| Blwyddyn 1 Dosbarth B | | | 30 | | | | | |
| Dosbarth Blwyddyn 1/2 Cymysg | | | 15 | 15 | | | | |
| Blwyddyn 2 Dosbarth A | | | | 30 | | | | |
| Blwyddyn 2 Dosbarth B | | | | 30 | | | | |
| Blwyddyn 3 Dosbarth A | | | | | 30 | | | |
| Blwyddyn 3 Dosbarth B | | | | | 30 | | | |
| Dosbarth Blwyddyn 3/4 Cymysg | | | | | 15 | 15 | | |
| Blwyddyn 4 Dosbarth A | | | | | | 30 | | |
| Blwyddyn 4 Dosbarth B | | | | | | 30 | | |
| Blwyddyn 5 Dosbarth A | | | | | | | 30 | |
| Blwyddyn 5 Dosbarth B | | | | | | | 30 | |
| Dosbarth Blwyddyn 5/6 Cymysg | | | | | | | 15 | 15 |
| Blwyddyn 6 Dosbarth A | | | | | | | | 30 |
| Blwyddyn 6 Dosbarth B | | | | | | | | 30 |

## Pa Bryd y Gweithredir Hyn?

Mae gwaith i greu ystafell ddosbarth ychwanegol yn hen Ganolfan Deulu y Fforest eisoes wedi'i gwblhau, a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer trydydd dosbarth Derbyn. Bydd rhannau eraill o'r ysgol yn cael eu hailfodelu yn ôl yr angen yn ystod cyfnod gwyliau'r haf 2024. Bydd y cynnydd capasiti yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cael ei gymhwyso'n gynyddol, gan dderbyn 15 o ddisgyblion ychwanegol i bob dosbarth Derbyn sy'n weithredol o fis Medi 2024.

## Cost y Cynnig

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiect yw £1 miliwn drwy gyllid grant cymeradwy Llywodraeth Cymru.

**Costau Refeniw**
Bydd y prosiect yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol ledled y ddinas, gan arwain at gynnydd yng nghostau staff Awdurdodau Lleol. Bydd ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn golygu bod angen athrawon a chynorthwywyr addysgu newydd.

**Goblygiadau Cyllid Refeniw**
Bydd ehangu ysgol bresennol, wrth gwrs, yn golygu pwysau costau ychwanegol i'r Awdurdod Lleol. Mae'r cyngor wedi ystyried y pwysau ychwanegol hyn ac wedi eu cynnwys yn ein cynllunio ariannol yn ôl yr angen. Oherwydd y cynnydd cynyddrannol arfaethedig mewn capasiti, bydd yn cymryd 8 mlynedd i gyrraedd capasiti llawn, ac felly i'r gost gael ei gwireddu. Yn y pen draw, cost 105 o leoedd ychwanegol fydd tua £360,000 y flwyddyn a bydd y cynnydd mewn costau yn cael ei ariannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Amlinellir costau refeniw disgwyliedig y cynnig isod:

**Tabl 16: Cyllid Refeniw**

| | 2024-25 £,000 | 2025-26 £,000 | 2026-27 £,000 | 2027-28 £,000 | 2028-29 £,000 | 2029-30 £,000 | 2030-31 £,000 | 2031-32 £,000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 60 | 108 | 151 | 195 | 236 | 278 | 319 | 360 |

## Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

### 1) Gwneud dim a gadael Ysgol Gynradd Parc Tredegar gyda chapasiti o 420 o ddisgyblion

Byddai hyn yn arwain at gynnydd posibl yn nifer y disgyblion sy'n methu sicrhau lle mewn ysgol leol oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion, llawer yn dod o ddatblygiadau tai newydd. Gallai arwain at rannu brodyr a chwiorydd i ysgolion gwahanol.

*Manteision*
- Dim tarfu ar waith disgyblion a'r ysgol gan waith adeiladu
- Dim disgyblion ychwanegol ar amseroedd codi a gollwng

*Anfanteision*
- Efallai na fydd rhai disgyblion yn cael lle yn eu hysgol ddalgylch
- Gellir rhannu brodyr a chwiorydd oherwydd nad oes digon o le yn yr ysgol
- Bydd ysgolion eraill ledled Casnewydd ac yng nghlwstwr Ysgol John Frost yn cael mwy o bwysau ar ddisgyblion
- Efallai na fydd capasiti clwstwr Ysgol John Frost yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer plant ychwanegol sy'n dod o'r tri datblygiad tai cyfagos

### 2) Ehangu ysgol gynradd wahanol yng nghlwstwr Ysgol John Frost

Byddai hyn yn arwain at ychwanegu lleoedd ysgol ychwanegol yng nghlwstwr Ysgol John Frost i gefnogi disgyblion ychwanegol sy'n dod o'r datblygiadau tai newydd yn yr ardal.

Manteision
- Cynnydd yn y lleoedd ysgol sydd ar gael fesul grŵp blwyddyn yn y clwstwr
- Digon o le i ddisgyblion sy'n dod o'r datblygiadau tai newydd gerllaw
- Mwy o gyfleoedd i staff yn yr ysgol gynradd estynedig

Anfanteision

- Mae'r opsiynau posibl mewn ysgolion eraill yn gyfyngedig iawn oherwydd safleoedd ysgol cyfyngedig
- Mae ysgolion cynradd addas eraill yn y clwstwr ymhellach i ffwrdd o'r datblygiadau tai newydd
- Mae gan rai o'r ysgolion cynradd eraill gynlluniau eisoes i ehangu yn y dyfodol
- Tarfu posibl ar ddisgyblion/ysgol ar safle arall gan y gwaith adeiladu
- Nid oes arian dynodedig ar gael i dalu cost gwaith posibl

Cafodd yr opsiwn o gynyddu capasiti ysgol gynradd arall mewn ardal glwstwr ysgol uwchradd gyfagos ei ystyried a'i ddiystyru ar gam cynnar. Mae hyn oherwydd bod dadansoddiad o ddata genedigaethau a chod post disgyblion yn nodi'r pwysau ar leoedd ysgolion cynradd yng ngorllewin y ddinas sy'n bennaf yn deillio o ardal Clwstwr Ysgol John Frost. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion sy'n dangos mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yng Nghlwstwr Basaleg yn y dyfodol yn benodol oherwydd hanes o geisiadau llwyddiannus y tu allan i'r dalgylch yn unol â dewis rhieni.

## Beth fydd y cynnig a ffefrir yn ei gyflawni?

Yn dilyn ystyried yr opsiynau amgen, mae'r Cyngor wedi nodi mai'r opsiwn i ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar i ddarparu ar gyfer 105 o ddisgyblion ychwanegol yw'r opsiwn a ffefrir.

Bydd yr opsiwn a ffefrir yn caniatáu i'r ysgol dyfu i 2.5 dosbarth mynediad a darparu 105 o leoedd cyfrwng Saesneg ychwanegol yn ardal Dyffryn, yn benodol i ddelio â phwysau yn y dyfodol o ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal. Bydd yr opsiwn a ffefrir yn cael ei ariannu gan gyllid grant cymeradwy.

# Trefniadau Trefniadaeth Ysgol

**Dalgylch**
Ni fydd unrhyw newidiadau i'r dalgylchoedd cynradd ac uwchradd presennol o dan y cynnig hwn.

**Derbyniadau**
Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion cymunedol a gynhelir ar draws y ddinas.

Bydd ceisiadau am dderbyn i bob ysgol gymunedol a gynhelir yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Yn unol â'r polisi hwn, gall rhieni fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol, ond nid oes sicrwydd y cânt eu derbyn i'r ysgol a ddewiswyd, hyd yn oed os mai hi yw'r ysgol ddalgylch. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â dewis rhieni, os bydd lleoedd ar gael. Pan fo ysgol wedi ei gordanysgrifio, caiff dewisiadau rhieni eu hystyried o hyd ond caiff meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor eu dilyn i bennu blaenoriaeth.

*Derbyn i Ddosbarth Meithrin – Medi 2024*
Gellir gwneud ceisiadau drwy ddefnyddio gwasanaeth derbyn ar-lein y Cyngor rhwng 12 Gorffennaf 2023 a 6 Medi 2023. Cyhoeddir hysbysiadau penderfyniad ar gyfer ceisiadau prydlon ar 6 Rhagfyr 2023.

*Derbyn i'r Dosbarth Derbyn - Medi 2024*
Gellir gwneud ceisiadau drwy ddefnyddio gwasanaeth derbyniadau ar-lein y Cyngor rhwng 6 Tachwedd 2023 a 9 Ionawr 2024. Cyhoeddir hysbysiadau penderfyniadau ar gyfer ceisiadau prydlon ar 16 Ebrill 2024.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y polisi a'r prosesau Derbyniadau Ysgol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/schooladmissions

**Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol**

Mae llwybrau cerdded diogel i safleoedd presennol yr ysgol eisoes wedi'u sefydlu. O dan bolisi'r Cyngor, mae cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei ddarparu i holl ddisgyblion oedran cynradd (oedran ysgol statudol) sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol sydd agosaf iddynt. Ni ddarperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am bolisi cludiant i'r ysgol yr awdurdod lleol yma:
http://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/Schools/School-transport/School-transport.aspx

**Llywodraethiant**

Ni fydd newidiadau i drefniadau llywodraethu'r ysgol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd y corff llywodraethu yn parhau i weithredu yn ei ffurf bresennol.

**Staffio**

Bydd angen penodi staff ychwanegol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar i ddarparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion. Bydd y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu yn rheoli hyn yn unol â phrosesau recriwtio y cytunwyd arnynt.

## Manteision

Manteision allweddol y cynnig yw:

1) Mwy o leoedd i ddisgyblion yn yr ysgol
2) Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fynychu eu hysgol ddalgylch
3) Paratoi ar gyfer galw disgyblion yn y dyfodol o ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal
4) Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff;

## Anfanteision

Ni nodwyd unrhyw anfanteision sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

## Risgiau

Mae'r risgiau perthnasol i'r cynnig hwn, ynghyd â'r ffactorau lliniarol wedi eu rhestru isod:

| Tabl 17: Risgiau | |
|---|---|
| **Risg** | **Ffactor lliniarol** |

| | |
|---|---|
| Nid yw'r ehangu arfaethedig yn ddigonol i ateb y galw | Bydd y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol yn parhau i fonitro amcanestyniadau a gweithredu'n briodol. |
| Y galw am leoedd mewn ysgolion yn lleihau | Mae hyn yn annhebygol oherwydd ffigurau amcanestyniad disgyblion ac o ystyried y datblygiadau tai newydd yn yr ardal leol. Bydd y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol yn parhau i fonitro amcanestyniadau a gweithredu'n briodol. |
| Nid yw'r cyllid ar gael | Os na fydd yr arian o'r Grant Cyfalaf ar gael oherwydd oedi, efallai na fydd modd cyflawni'r cynnydd mewn capasiti. |
| Bydd cynnydd yn nifer y disgyblion cynradd yn arwain at fwy o bwysau ar leoedd mewn ysgolion uwchradd | Bydd y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol yn parhau i fonitro amcanestyniadau a gweithredu'n briodol. Gan nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i ffiniau dalgylchoedd, ni fydd y cynnydd capasiti arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar bwysau ysgolion uwchradd. |

## Asesiadau o Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb wedi'i gynnal ar gyfer y cynnig hwn, ac mae ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor.

## Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg

Nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd.

Y cynnig hwn yw cynyddu capasiti ysgol cyfrwng Saesneg ac ni fydd yn cael unrhyw effaith niweidiol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ddinas. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn ôl oedran a gallu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hasesu'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Agorodd y 4edd ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, ym mis Medi 2021, fel egin ysgol yn ei lleoliad dros dro yng Nghaerllion. Ar hyn o bryd mae 90 o leoedd cynradd oedran statudol ar gael ar gyfer 2023/24 ar draws dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Yn unol â CYBLD 2023, roedd gan yr ysgol 13 o ddisgyblion ar y gofrestr ar draws y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1, gan adael 78.3% o leoedd gwag.

Mae disgwyl i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli symud i'w safle parhaol yn adeilad gwag Ysgol Gynradd Pilgwenlli ar Capel Crescent yn 2025. Mae dalgylch Ysgol Gynradd Parc Tredegar, fel rhan o glwstwr Ysgol John Frost, o fewn dalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Bydd hyn yn darparu digon o leoedd lleol o safon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal o'r ddinas

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024.**

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich sylwadau gyda ni am y cynnig trwy lenwi'r holiadur hwn. **Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ar 12 Tachwedd 2023.** Sylwer na fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

**1) A ydych chi'n cefnogi'r cynnig i:**

Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024.

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn rhannol** ☐

**Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i esbonio pa ran o'r cynnig nad ydych yn ei chefnogi**

| |
|---|
| |

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried a nodi'r holl effeithiau posib y gallai penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**2) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

**Cadarnhaol** ☐ **Negyddol** ☐ **Dim effaith** ☐

**3) Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?**

| |
|---|
| |

**4) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynychu ysgol feithrin leol)**

| |
|---|
| |

| **Dewiswch eich grŵp Ethnig** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | | Asiaidd-Bangladeshaidd | |
| Gwyn Gwyddelig | | Asiaidd-Indiaidd | |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): ___________________ | | Asiaidd-Pacistanaidd | |
| | | Unrhyw gefndir Asiaidd arall | |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | | Du Caribïaidd | |
| Gwyn ac Asiaidd | | Du Affricanaidd | |
| Gwyn a Du Affricanaidd | | Unrhyw gefndir Du arall | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | | Arabaidd | |
| Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): ___________________ | | Tsieineaidd | |
| | | Unrhyw grŵp ethnig arall ( nodwch): __________________ | |
| Asiaidd-Bangladeshaidd | | | |
| Asiaidd-Indiaidd | | Gwell gennyf beidio dweud | |
| Asiaidd-Pacistanaidd | | | |

| **Y Gymraeg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |

| **Cyfrifoldebau Gofalu** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n gofalu am blant oedran ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |
| **A ydych chi'n gofalu am blant oedran cyn-ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |
| **A ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn sy'n hŷn nag oedran ysgol?** | | | | | |
| Ydw | | Nac ydw | | Gwell gennyf beidio dweud | |

Os hoffech gael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt isod:

E-mail: ______________________________________________________________

Cyfeiriad post: ________________________________________________________